



Department for
Business, Energy
& Industrial Strategy

DULLIAU DIOGELU NIWCLEAR: RHEOLIADAU DRAFFT

Ymgynghoriad ar y rheoliadau arfaethedig
ar gyfer cyfundrefn newydd o ddulliau
diogelu niwclear domestig, ar ôl i'r
Deyrnas Unedig dynnu'n ôl o Euratom

Dyddiad cau: 14 Medi 2018

Gorffennaf 2018

DULLIAU DIOGELU NIWCLEAR: RHEOLIADAU DRAFFT

Ymgynghoriad ar y rheoliadau arfaethedig
ar gyfer cyfundrefn newydd o ddulliau
diogelu niwclear domestig, ar ôl i'r
Deyrnas Unedig dynnu'n ôl o Euratom

Cewch weld yr ymgynghoriad, y Rheoliadau Dulliau Diogelu Niwclear drafft a'r Asesiad
Effaith yma: <https://www.gov.uk/government/consultations/nuclear-safeguards-regulations>

© Hawlfraint y Goron 2018

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0
ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded, ewch i
www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/ neu ysgrifennwch at The
Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch
neges ebost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle rydyn ni wedi nodi unrhyw wybodaeth sydd o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen
ichi sicrhau caniatâd deiliad yr hawlfraint o dan sylw.

Dylai unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn gael eu marcio'n glir â'r geiriau "Draft
Nuclear Safeguards Regulations" a'u hanfon aton ni yn
nuclearsafeguardsconsultation@beis.gov.uk

Crynodeb Gweithredol

Rhagymadrodd

Bydd y Rheoliadau Dulliau Diogelu Niwclear drafft yn galluogi cyfundrefn ddomestig newydd o ddulliau diogelu niwclear i weithredu yn y Deyrnas Unedig, ar ôl i'r Deyrnas Unedig dynnu'n ôl o'r Gymuned Ynni Atomig Ewropeaidd ("Euratom") a fydd yn digwydd o ganlyniad i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Bydd y gyfundrefn ddomestig hon yn disodli'r trefniadau presennol a geir drwy aelodaeth y Deyrnas Unedig o Euratom, a thrwy rôl y Comisiwn Ewropeaidd yn y cytundebau tair ochr rhwng yr Asiantaeth Ynni Atomig Ryngwladol, y Deyrnas Unedig a Euratom.

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i sefydlu cyfundrefn newydd a fydd yn cyfateb o ran effeithiolrwydd a rhychwant i'r un a ddarperir ar hyn o bryd gan Euratom, ac a fydd yn well na'r safonau rhyngwladol a ddisgwylir. Ymagwedd y Llywodraeth yw sefydlu cyfundrefn a fydd yn gweithredu mewn ffordd debyg i'r trefniadau presennol, gan fodloni ymrwymïadau rhyngwladol y Deyrnas Unedig fel y'u cymhwysir yn y cytundebau dwyochrog newydd gyda'r Asiantaeth Ynni Atomig Ryngwladol. Mae'r ymagwedd hon yn ystyried yr arferion gorau wrth wneud rheoliadau yn y Deyrnas Unedig ac yn adlewyrchu adborth ar anghenion ymarferol, anghenion rheoleiddiol ac anghenion gweithredol ein rhanddeiliaid, gan gynnwys yr angen i leihau'r aflonyddu ar y diwydiant.

O'u gwneud yn ddeddf gwlad, bydd y Rheoliadau Dulliau Diogelu Niwclear drafft arfaethedig hyn yn caniatáu i'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear gyflawni'r safonau rhyngwladol o'r diwrnod cyntaf un ar ôl ymadael, ac i adeiladu i fod yn gyfartal ag Euratom dros amser.

Mae nifer o newidiadau wedi'u hymgorffori yn y rheoliadau i sicrhau eu bod yn briodol ar gyfer y dirwedd ddomestig, ddeddfwriaethol a gweithredol y maent yn gweithredu ynddi. Byddant yn ystyried ac yn cyd-fynd â'r arferion gorau ac yn adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng system a reoleiddir gan reoleiddiwr cenedlaethol a defnyddio dulliau diogelu corff goruwchgenedlaethol (e.e. cyflwyno cynllun cyfrifeg a

rheolaeth a ffurfioli'r gydymffurfiaeth â chytundebau cydweithredu rhyngwladol) neu ddatblygu ar yr arferion presennol (e.e. darpariaethau arbennig ar gyfer cyfleuster niwclear cymwys cyfyngedig ei weithrediad).

Mae'r Rheoliadau Dulliau Diogelu Niwclear drafft yn adlewyrchu'r dadleuon ar ddulliau diogelu ynni niwclear a gafwyd yn y Senedd ac yn ymgorffori adborth y diwydiant niwclear a'r gymuned ehangach o randdeiliaid a gafwyd drwy gyfrwng ein trafodaethau ar y dulliau diogelu yn Fforymau Diwydiant Euratom ym mis Medi 2017 a mis Mawrth 2018. Mae Fforwm nesaf Diwydiant Euratom wedi'i drefnu ar gyfer 19 Gorffennaf 2018 a bydd yn rhoi cyfle pellach i'r diwydiant roi adborth yn ychwanegol at y digwyddiadau ymgynghori arfaethedig a amlinellir yn yr adran 'Sut i ymateb' isod.

Caiff y Rheoliadau Dulliau Diogelu Niwclear drafft eu gwneud o dan y pwerau a gynhwysir yn Neddf Dulliau Diogelu Niwclear 2018 a Deddf Ynni 2013 (fel y'i diwygiwyd). Mae Ddeddf Dulliau Diogelu Niwclear 2018 yn darparu i'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear ysgwyddo'r rôl a'r cyfrifoldebau y mae eu hangen i sicrhau y cydymffurfir â rhwymedigaethau ynghylch dulliau diogelu niwclear a geir mewn cytundeb rhyngwladol perthnasol, boed drwy'r Asiantaeth Ynni Atomig Ryngwladol ynteu gyda thrydedd wlad. Mae'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear eisoes yn rheoleiddio diogelwch niwclear.

Diben yr ymgynghoriad hwn

Mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf Dulliau Diogelu Niwclear 2018 ymgynghori â diwydiant, y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear a phersonau eraill y bernir eu bod yn briodol, wrth wneud rheoliadau. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal gan yr Ysgrifennydd Gwladol er mwyn cydymffurfio ag adrannau 76A(8)(a) a (b) a 112(1D)(a) a (b) o Ddeddf Ynni 2013, ac mae'n gofyn am safbwyntiau ar pa mor ymarferol ac effeithiol yw'r Rheoliadau Dulliau Diogelu Niwclear drafft, a gyhoeddir fel Atodiad 1.

I hwyluso'r dasg o ystyried y cynigion, cafodd drafft cyn-ymgyngori o'r Rheoliadau Dulliau Diogelu Niwclear ei gyhoeddi ynghyd â Nodyn Esboniadol¹ ar 19 Ionawr 2018. Cynhaliwyd gweithdy technegol cyntaf gyda'r gweithredwyr allweddol yn Chwefror 2018 a bydd rhagor o weithdai'n cael eu trefnu yn ystod yr ymgynghoriad hwn. Mae swyddogion BEIS hefyd wedi ffurfio gweithgor gyda chydweithwyr yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon gan gynnal gweithdai ym mis Chwefror 2018 i ystyried materion eraill yn gysylltiedig ag ymadael ag Euratom megis cludo a thrin gwastraff ymbelydrol. Yn ogystal, mae'r swyddogion wedi trafod y Rheoliadau Dulliau Diogelu Niwclear drafft gyda'r gymuned o Gyrrff Anllywodraethol. Rydym yn edrych ymlaen at barhau i weithio'n agos gyda'r diwydiant a'r rhanddeiliaid eraill yn ystod yr ymgynghoriad hwn.

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn disgrifio ac yn egluro'r hyn yr ydym yn ceisio'i gyflawni gyda'r Rheoliadau Dulliau Diogelu Niwclear drafft ac yn nodi'n cwestiynau allweddol. Mae'r holl gwestiynau wedi'u nodi mewn catalog yng nghefn y ddogfen hon hefyd.

Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn a'r digwyddiadau cysylltiedig yn cael eu hystyried wrth inni fwrw ymlaen â'r polisi ac fe allai'r Rheoliadau Dulliau Diogelu Niwclear gael eu diwygio ymhellach.

Rhagwelir y bydd y rhai sydd am ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear, gweithredwyr cyfleusterau niwclear a rhanddeiliaid diwydiannol eraill, mewforwyr ac allforwyr deunyddiau niwclear penodol, eraill sy'n dal deunyddiau niwclear (gan gynnwys rhai cyfleusterau ymchwil), Seneddwyr, Gyrrff Anllywodraethol a sefydliadau eraill yn y gymdeithas ddinesig. Efallai y bydd yr ymgynghoriad o rywfaint o ddiddordeb hefyd i'r rhai sydd â diddordeb cyffredinol mewn materion niwclear.

Tiriogaeth:

Bydd y Rheoliadau Dulliau Diogelu Niwclear yn cynnwys Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys pob un o'r tiriogaethau. Yn unol â hynny, rydym yn croesawu barn y Gweinyddiaethau Datganoledig.

¹ <https://www.gov.uk/government/publications/nuclear-safeguards-bill-draft-regulations>

Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Mae'r Deyrnas Unedig wedi elwa o'i haelodaeth o'r Gymuned Ynni Atomig Ewropeaidd ers ymuno â'r UE a Euratom ym 1973. Uchelgais y Llywodraeth yw cynnal cynifer o'r manteision hyn â phosibl trwy gysylltiad agos ac effeithiol ag Euratom yn y dyfodol, ar ôl i'r Deyrnas Unedig dynnu'n ôl o Euratom, ar yr un pryd ag y bydd yn tynnu'n ôl o'r UE, ar 29 Mawrth 2019. Mae'n cynlluniau wedi'u bwriadu i fod yn gadarn er mwyn paratoi at nifer o sefyllfaoedd gwahanol, gan gynnwys y canlyniad annhebygol na cheir unrhyw gytundeb o gwbl.

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi dod i gytundeb gwleidyddol gyda'r UE ar gyfnod gweithredu a fydd yn dechrau ar 29 Mawrth 2019 ac yn para tan 31 Rhagfyr 2020, pryd y bydd Euratom yn parhau i ddarparu'r trefniadau diogelu i'r Deyrnas Unedig. Nid yw'r Rheoliadau Dulliau Diogelu Niwclear drafft yn pennu dyddiad cychwyn arfaethedig, oherwydd er ein bod yn hyderus iawn y caiff y cyfnod gweithredu ei gadarnhau fel rhan o'r Cytundeb Ymadael ehangach, nes i hwnnw gael ei gwblhau, fel unrhyw lywodraeth gyfrifol rydym yn paratoi ar gyfer yr holl ddeilliannau posibl, gan gynnwys y sefyllfa annhebygol na fydd modd dod i unrhyw gytundeb sy'n foddhaol i bawb.

Sut i ymateb

O ran hwylustod, mae'r cwestiynau a ofynnir drwy'r ddogfen wedi'u rhestru hefyd gyda'i gilydd mewn [catalog o gwestiynau](#) yng nghefn y ddogfen hon.

Bydd eich ymateb yn fwyaf defnyddiol os yw wedi'i fframio mewn ymateb uniongyrchol i'r cwestiynau a ofynnir, er bod croeso hefyd i sylwadau a thystiolaeth bellach. Wrth ichi ymateb, nodwch a ydych yn ymateb fel unigolyn ynteu'n mynegi barn sefydliad. Fe'ch anogir i ymateb drwy lenwi'r arolwg ar-lein yma:

<https://www.gov.uk/government/consultations/nuclear-safeguards-regulations>

Fel arall, gallwch anfon eich ymatebion drwy'r ebost at nuclearsafeguardsconsultation@beis.gov.uk

Gall copïau caled hefyd gael eu cyflwyno i'r cyfeiriad isod, a dylid eu nodi'n glir â'r geiriau 'Ymgynghoriad Dulliau Diogelu Niwclear'. Mae ffurflen ymateb ar gael hefyd ar dudalen ymgynghori GOV.UK:

<https://www.gov.uk/government/consultations/nuclear-safeguards-regulations>

Yn ogystal â gwahodd ymatebion cyhoeddus i'r ymgynghoriad ar-lein, bydd o leiaf dau weithdy ymgynghori'n cael eu cynnal i'r partïon sydd â buddiant yn hyn, gan gynnwys y diwydiant. Cynhelir y cyntaf ar 2 Awst yn swyddfa'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yn Llundain, a'r ail ar 15 Awst yng Nghanolfan Gynadledda Manceinion. I gofrestru'ch lle mewn gweithdy, anfonwch e-bost at nuclearsafeguardsconsultation@beis.gov.uk

Cyhoeddir manylion unrhyw ddigwyddiadau ychwanegol yma:

<https://beisgovuk.citizenspace.com/civil-nuclear-resilience/nuclear-safeguards-regulations>

Cyhoeddwyd: 9 Gorffennaf 2018

Ymatebwch erbyn: 14 Medi 2018

Ymholiadau i:

Nuclear Safeguards Consultation
Euratom Exit Team

Department for Business, Energy & Industrial Strategy,
3rd Floor, Area 'Victoria 327',
1 Victoria Street,

London, SW1H 0ET
Ffôn: 020 7215 5000

Ebost: nuclearsafeguardsconsultation@beis.gov.uk

Cyfeirnod yr ymgynghoriad: Ymgynghoriad ar y Rheoliadau Dulliau Diogelu Niwclear drafft

Copïau ychwanegol:

Cewch wneud copïau o'r ddogfen hon heb ofyn caniatâd. Mae fersiwn electronig ar gael yma: <https://www.gov.uk/government/consultations/nuclear-safeguards-regulations>

Gellir darparu copïau caled drwy wneud cais i'r cyfeiriad post uchod, neu drwy anfon neges ebost: nuclearsafeguardsconsultation@beis.gov.uk.

Gallwn ddarparu amrywiaeth o fersiynau mewn fformatau hygyrch o'r dogfennau ymgynghori mewn ymateb i geisiadau penodol – cysylltwch â ni fel y gallwn wneud y trefniadau priodol.

Rydym wedi cyhoeddi cyfieithiad Cymraeg o'r crynodeb gweithredol yn unig ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori, a hyn ar ôl penderfynu mai bach fyddai'r angen am gyfieithiad llawn o'r ddogfen gyfan, o gofio ei bod yn ddogfen dechnegol, wedi'i hanelu'n bennaf at gynulleidfa arbenigol fach, ac am ei bod yn berthnasol am gyfnod byr yn unig, fel dogfen ymgynghori.

Cyfrinachedd a diogelu data

Gall gwybodaeth a ddarperir gennych mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei datgelu yn unol â deddfwriaeth y Deyrnas Unedig (Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os hoffech i'r wybodaeth a ddarparwch gael ei thrin yn gyfrinachol, dywedwch hynny'n glir ond sylwch na allwn warantu cyfrinachedd ym mhob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG yn cael ei drin gennym fel cais am gyfrinachedd.

Byddwn yn prosesu'ch data personol yn unol â holl ddeddfau diogelu data'r Deyrnas Unedig a'r UE sy'n gymwys. Gweler ein [polisi preifatrwydd](#).

Byddwn yn crynhoi'r holl ymatebion ac yn gosod y crynodeb ar wefan [GOV.UK](#). Bydd y crynodeb hwn yn cynnwys rhestr o'r enwau neu'r sefydliadau sydd wedi ymateb, ond nid enwau personol, cyfeiriadau neu fanylion cyswllt eraill pobl.

Sicrhau ansawdd

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i gynnal yn unol ag [egwyddorion ymgynghori'r Llywodraeth](#).

Os oes gennych unrhyw gwynion am y broses ymgynghori (o'i gyferbynnu â sylwadau am y materion sy'n destun yr ymgynghoriad) anfonwch nhw at:

Ebost: beis.bru@beis.gov.uk